

## **Prifysgol Metropolitan Caerdydd**

**TAR mewn leithoedd Tramor Modern      Gwybodaeth am y Pecyn Ymuno      Dechrau ym mis Medi 2019**

Shwmae bawb!

Er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn brysur, heriol a chyffrous sydd o'ch blaenau, a fyddech cystal â chyflawni'r tasgau canlynol cyn diwedd mis Awst. Bydd hyn yn rhoi sylfaen dda i chi o ran rhywfaint o'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu ymhellach wrth i'r cwrs fynd rhagddo. Dilynwch yr hyperddolenni yn y ddogfen hon i fynd i'r tudalennau perthnasol.

### **1) CADARNHEWCH EICH BOD YN DOD**

Anfonwch e-bost ataf yn [cehoward@cardiffmet.ac.uk](mailto:cehoward@cardiffmet.ac.uk) er mwyn cadarnhau y byddwch yn astudio gyda ni ym mis Medi.

### **2) GWNEWCH RYWFRAINT O WAITH IAITH**

Edrychwch ar adrannau cyn-bapurau arholiad gwefan CBAC.

Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am fanylebau ac arholiadau TGAU a Safon Uwch.

TGAU a Safon Uwch (Dewiswch iaith ar y dudalen we):

<https://www.wjec.co.uk/students/past-papers/>

Wrth i chi weithio drwy'r papurau TGAU, meddyliwch am rai o'r camsyniadau posibl a fydd gan ddisgyblion ynghylch rhai o'r cwestiynau ac ysgrifennwch restr ohonynt. Byddwch yn barod i ddod â'r syniadau hyn gyda chi ym mis Medi. Mae bod yn ymwybodol o gamsyniadau disgyblion a'u datgelu yn hanfodol er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynllunio addysgu a dysgu ym MHOB dosbarth. Bydd meddu ar wybodaeth pwnc dda ar y lefel hon yn allweddol er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus.

Gwnaed rhai newidiadau i fanylebau Safon Uwch yn ddiweddar, a arholwyd am y tro cyntaf yn ystod Haf 2018. Edrychwch ar y fanyleb ac ewch ati i chwilio am bapur(au) iaith perthnasol er mwyn cadarnhau eich gwybodaeth gyfredol ar y lefel hon.

### **3) GWNEWCH RYWFRAINT O WAITH DARLLEN**

Dechreuwch ddarllen rhywfaint o lenyddiaeth am addysgu a dysgu mewn ysgol uwchradd.

Mae'r llyfrau canlynol yn fan cychwyn cyffredinol da:

*'Learning to teach Foreign Languages in the Secondary school: a companion to school experience'* gan Norbert Pachler *et al.*, 4ydd argraffiad. / Norbert Pachler ... [et al.]. Llundain: Routledge 2014.

(Ar gael ar Brif Silffoedd Cyncoed (418.00712 PAC) ar ôl i chi gofrestru.

*'The language teacher toolkit'* gan Steve Smith a Gianfranco Conti (2016).

(Ar gael ar Gampws Cyncoed - Prif Silffoedd (418.00712 SMI).

Mae'r ddau lyfr hefyd ar gael o Amazon.

Hefyd, dylech ymgyfarwyddo â gwefan Dysgu Cymru a'r dogfennau canlynol gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag leithoedd Tramor Modern yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a'r cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus' newydd arfaethedig a gaiff ei roi ar waith yn 2022.

Dyfodol Byd-eang: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/global-futures-a-plan-to-improve-and-promote-modern-foreign-languages.pdf>

Gwefan Dysgu Cymru: <https://learning.gov.wales/resources/browse-all/foreign-languages-in-the-curriculum/?lang=cy>

Y Cwricwlwm Newydd (Cymru): <https://llyw.cymru/cwricwlwm-gymru-2022>

Rhaglen Astudio leithoedd Tramor Modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol,

Cwricwlwm Drafft i Gymru Dyfodol Llwyddiannus – leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-07/languages-literacy-and-communication-aole-december-2017.pdf>

#### **4) EWCH ATI I ARSYLWI AR RYWFANT O WAITH ADDYSGU IEITHOEDD TRAMOR MODERN**

Ceisiwch gael rhywfaint o brofiad yn arsylwi/ helpu mewn ysgol uwchradd. Canolbwyntiwch ar y ffordd y mae'r disgyblion yn rhyngweithio â'i gilydd a'r athro a'r ffordd y caiff y dysgu ei reoli. Bydd unrhyw brofiad ychwanegol a gewch yn hynod werthfawr – a hynny gyda dosbarthiadau 'da' a dosbarthiadau 'heriol'.

Pob lwc gyda'r tasgau hyn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ym mis Medi.

Cofion gorau!

**Craig Ellis Howard**

**Uwch Ddarlithydd – Arweinydd y Rhaglen TAR mewn leithoedd Tramor Modern**